

RHESTRU CYNNYRCH Y WASG GYFNODOL GYMREIG

Yn 1843 y cyhoeddwyd y drafodaeth gyntaf ar gynnyrch gwasg gyfnodol Cymru, a hynny mewn ymdriniaeth gynhwysfawr ar yr iaith Gymraeg a'i llen yn un o gyfrolau'r *Penny cyclopaedia*. Paratowyd yr ymdriniaeth gan Thomas Watts (1811-1869), Ceidwad Adran y Llyfrau Printiedig yn yr Amgueddfa Brydeinig. Yr oedd gan Watts gogf arbennig o afaelgar a'i galluogodd i ddysgu nifer o ieithoedd anodd. Meistrolodd yr ieithoedd Celtaidd a Slaf yn ogystal ag Hwngareg, ac ef yn anad neb arall a roes sylfaen gadarn i gasgliadau'r Amgueddfa o lenyddiaethau tramor. Dengys traethawd Thomas Watts yn *The Penny cyclopaedia* fod ganddo wybodaeth helaeth a manwl o'r Gymraeg a'i llenyddiaeth, ac ymestyn ei arolwg o gyfnod tywyll y canrifoedd cynnar hyd at chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhoes sylw arbennig i weithiau Beirdd y Tywysogion, Dafydd ap Gwilym a Goronwy Owen. Trafododd fesurau cerdd dafod a rhoes sylw i ryddiaith Gymraeg gynnar a'r cyfieithiadau o'r Ysgrifurau. Yr oedd hefyd o'r farn bod dadeni llenyddol wedi digwydd yng Nghymru yn niwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r ganrif ddiwethaf, a phriodolodd yr adfywiad hwn i ddylanwad cymdeithasau Cymraeg fel y Cymmrodorion a'r Gwyneddigion yn Llundain, a thwf y wasg gyfnodol.

Mae'n sicr y gwyddai Thomas Watts fwy na'r un Sais arall am gynnyrch gwasg gylchgronol Cymru cyn 1843. Ychydig o ymchwilwyr y cyfnod a allai fanteisio ar ei gyfleusterau ef. Wedi'r cyfan, yr oedd y prif ddefnyddiau wrth law yng nghasgliadau'r Amgueddfa Brydeinig, ac fel ysgolhaig ac ieithydd meddai ar y cymwysterau priodol i ymgymryd â'r dasg. Er hynny, arwynebol yw ei ymdriniaeth, y cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig a helaethach ohoni yn *Knight's English cyclopaedia* yn 1861. Erbyn hynny bu cynnydd pellach yn nifer y cyfnodolion Cymraeg, a syfrdanwyd Watts gymaint gan y cynnydd hwn nes iddo ddatgan: 'In almost every country the periodical portion of its literature has now assumed an importance unknown to previous stages of its history, but in no country is it so predominant as in Wales'.

Yn 1847, bedair blynedd wedi ymddangos o draethawd Thomas Watts, cyhoeddwyd trafodaeth lawnach ar gynnyrch gwasg gyfnodol Cymru, a hynny

gan HUW WALTERS

yn un o'r atodiadau i'r Llyfrau Gleision, adroddiad enwog y dirprwywr a benodwyd i ymchwilio i gyflwr addysg Cymru. Paratowyd yr ymdriniaeth hon gan John James (Ioan Meirion, 1815-1851), un o ddeg dirprwywr cynorthwyl y comisiwn. Cyfyngodd John James ei drafodaeth i gylchgronau a newyddiauron a gylchredai yng ngogledd Cymru, ond cyhoeddwyd nifer o'r teitlau hyn yn y de yn ogystal. Fodd bynnag, ni cheir gair am y cylchgronau Saesneg a wnaeth gymaint argraff ar Thomas Watts bedair blynedd ynghynt. Rhennir y drafodaeth yn ddwy ran. Trafodir y teitlau a gylchredai yng ngogledd Cymru yn 1846 yn y rhan gyntaf, a cheir ymdriniaeth â'r cylchgronau a oedd eisoes wedi peidio â bod erbyn y flwyddyn honno yn yr ail ran. Ar wahân i'r dosbarthiad hwn, prin y gellir dwed bod unrhyw drefn ar y ddwy restr. Trafodir un ar bymtheg o deitlau yn y rhan gyntaf, ac fe'u rhestrir yn gwbl fymrwyl. Darperir y wybodaeth lyfryddol a ganlyn — y teitl, fersiwn Saesneg o'r teitl, blwyddyn sefydlu'r cylchgrawn, y pris a'r man cyhoeddi. Ambell dro nodir pa mor aml yr ymddangosai — pa un a yw'n gylchgrawn misol, yn chwarterol neu'n newyddiadur wythnosol — a phryd arall dywedir pa un o'r enwadau crefyddol a'i noddai. Ond nid oes batrwm sefydlog i'r cofnodion, ac nid yw'r awdur yn gyson yn ei ddisgrifiadau. Anaml iawn y rhoddi enw'r sefydlydd, y golygydd na'r cyhoeddwr, er y gellir bod wedi dod o hyd i'r manylion hyn yn gymharol ddiidrafferth. Er hynny, nodir cylchrediad pump o deitlau yn yr adran hon ac, er i'r dirprwywr dystio fod yr atodiad wedi ei baratoi gyda chymorth y prif gyhoeddwr a llyfrwerthwyr, go brin y gellir dibynnu llawer ar ei ffigurau.

Yr hyn a wnaeth John James, wrth geisio disgrifio prif nodweddion yr eitemau hyn i'r di-Gymraeg, oedd cymryd sampl o ddau neu dri rhifyn o'r cylchgrawn a chyfieithu penawdau ysgrifau a barddoniaeth y rhifynnau hynny i'r Saesneg, gan oethio, mae'n debyg, bod y rhifynnau hyn yn rhoi darlun teg a chytbwys o brif nodweddion y cylchgrawn. Mae ail ran ei ymdriniaeth, lle trafodir y teitlau hynny a oedd eisoes wedi dod i ben erbyn 1846, fwy neu lai yn dilyn yr un patrwm.

Rhestrir saith ar hugain o deitlau yn yr adran hon heb unrhyw ymgais i'w dosbarthu, naill ai yn nhrefn yr wyddor neu'n gronolegol. Mae'n debyg hefyd na wyddai John James fawr ddim am ddatblygiad y wasg gyfnodol Gymraeg. Cwta ac annigonol yw ei sylwadau ar nifer o gylchgronau dylanwadol a phwysig, ac mae llawer o'r manylion llyfryddol yn wallus yn ogystal.

O ystyried yr holl wendidau hyn — y diffyg trefn a manylder, y ffeithiau anghywir a'r camgyfieithu — prin y gellir dibynnu llawer ar ymdriniaeth John James. Er hynny, annheg fuasai condemnio'r drafodaeth yn gyfan gwbl, oblegid adnabu brif deithi gwasg gylchgronol Gymraeg ei oes. Yr oedd eisoes wedi mynegi'r farn mai un o brif ddiffygion y wasg gylchgronol Gymraeg oedd ei natur enwadol, a hynny mor gynnar â mis Ebrill 1836. Soniodd hefyd am hoffter gohebwyr y wasg o ddadlau ar bynciau cymharol ddbwys — 'yn ceicu a bicra' chwedl yntau. Yr oedd amryw o sylwebyddion y cyfnod wedi sylwi ar orddibyniaeth y wasg Gymraeg ar yr enwadau crefyddol, fel y gwnaeth Thomas Stephens, Merthyr Tudful, er enghraifft yn 1851. Eb ef: 'Nid yw yn glod mawr i'r genedl ei bod yn analluog neu yn anewyllysgar i gynnal ei chyhoeddiadau heb eu bod mewn cysylltiad ac enwadau crefyddol, ond felly mae'. Ond odid mai prif werth yr atodiad i adroddiad y dirprwywr addysg oedd sbarduno Lewis Edwards i lunio cyfres o bedair erthygl bwysig ar ddau o brif gylchgronau'r ddeunawfed ganrif, sef *Trysorfa gwybodaeth*, 1770, a'r *Cylch-grawn Cymraeg*, 1793, a hynny yn *Y Traethodydd* yn 1848-49.

Er mai eiddo Thomas Watts a John James yw'r ddwy drafodaeth gyhoeddedig gyntaf ar gylchgronau Cymru, nid hwy oedd y cyntaf i fynd ati i geisio cloriannu cynnyrch y wasg gyfnodol. Perthyn yr anrhydedd hwnnw yn hytrach i William Thomas (Gwilym Mai, 1807-1872), brodor o Gaerfyrddin a brentisiwyd fel argraffydd yn swyddfa'r *Carmarthen Journal* yn y dref. Symudodd oddi yno i Ferthyr Tudful yn ddiweddarach a bu hefyd yn gysodydd yn swyddfa argraffu'r Reesiaid o'r Tonn yn Llanymddyfri cyn dychwelyd ohono i Gaerfyrddin drachefn lle y sefydlodd ei fusnes argraffu ei hun. Yn eisteddfodau Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni

y daeth William Thomas i'r amlwg gyntaf fel bardd a thraethodwr, ac yng ngŵyl 1840 yr enillodd dlws gwerth dau gini am draethawd ar y wasg gyfnodol, a hynny dan feirniadaeth Thomas Price (Carnhuanawc). Cyhoeddwyd y gwaith ddwy flynedd ar bymtheg yn ddiweddarach yn nhudalennau *Seren Gomer*.

Trafodir deg ar hugain o gylchgronau misol gan William Thomas, ac fe'u rhestrir mewn trefn gronolegol gan ddechrau â'r *Cylch-grawn Cymraeg*, 1793, nad oedd, mewn gwirionedd, yn gylchgrawn misol o gwbl. Enwir golygyddion, cyhoeddwy'r ac argraffwyr yn ogystal, nodir prisiau'r cyhoeddiadau, a cheir disgrifiad cryno o'u prif nodweddion. Nid yw'r rhestr yn gyflawn, fodd bynnag, ond mae'r manylion llyfryddol am bob cylchgrawn a restrir yn gywir. Byrthodlog fu'r mwyafrif llethol o'r teitlau hyn, a cheisiodd yr awdur ddadansoddi'r rhesymau am eu haflywyddiant yn ôl gofynion y gystadleuaeth. Argraffwyd *Y Cymro*, 1830-32, yn Llundain, a phrinder cysodwyr Cymraeg eu hiaith yn y ddinas a fu'n gyfrifol am ei ddiplaniad yn ôl William Thomas. Ymranid rhwng arweinwyr yr enwad a roes daw ar *Great y Beddyddwyr* yn 1827, ac eithafiaeth wleidyddol a fu'n gyfrifol am dranc *Y Geirgrawn* yn 1796. Ac fel mae'n digwydd 'roedd yr awdur yn llygad ei le.

Bu'n rhaid aros tan 1859 cyn ymddangos o'r rhestr gynhwysfawr gyntaf o gynnyrch y wasg gylchgronol. Cyhoeddwyd honno yn *Y Brython*, y cylchgrawn poblogaidd a gyhoeddwyd gan Robert Isaac Jones (Alltud Eifion) yn Nhrefmadog dan olygyddiaeth D. Silvan Evans. Dywedir mewn nodyn godre i'r rhestr mai Gwilym Lleyan a Glan Brenig a'i lluniodd. William Rowlands (1802-65), y gweinidog Wesleiaidd a'r llyfryddwr diflino oedd Gwilym Lleyan wrth gwrs, a Daniel Davies (1840-1916) cyfrifydd Cwmni Glofeydd yr Ocean yn y Rhondda yn ddiweddarach, oedd Glan Brenig. Dosberthir teitlau'r rhestr hon i bump o adrannau, sef blwyddolion, trimisolion, misolion, pythefnosolion ac wythnosolion, ac fe'u rhestrir mewn trefn amseryddol yn ôl blwyddyn eu sefydlu. Yr unig manylion eraill a ddarperir yw fan cyhoeddi'r eitemau, ni roddir gwybodaeth am olygyddion, cyhoeddwy'r nac argraffwyr, ac ni cheir ymdrech